# Paratoi a chasglu pysgod/cregynbysgod byw

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer ac yna casglu (heidio neu sgubo) pysgod neu gregynbysgod byw i unedau cadw, gan ddefnyddio rhwydi neu ddyfeisiadau eraill. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn casglu pysgod/cregynbysgod byw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud eich gwaith yn ddiogel yn unol â'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. dewis uned gadw ar gyfer casglu yn unol â'r gofynion
3. lle y bo'n briodol, gwirio a chadarnhau bod pysgod/cregynbysgod wedi cael eu cyflyru yn barod ar gyfer eu symud a'u trafod
4. paratoi'r cyfarpar casglu i'w ddefnyddio, fel bod iechyd a lles pysgod/cregynbysgod yn cael ei gynnal wrth gasglu
5. casglu pysgod/cregynbysgod byw gan ddefnyddio technegau sydd yn lleihau straen ac yn atal pysgod rhag dianc
6. monitro pysgod/cregynbysgod am arwyddion o faterion iechyd a lles wrth gasglu
7. monitro amodau amgylcheddol wrth gasglu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â chasglu pysgod/cregynbysgod byw
2. pam y mae'n bwysig addasu **prosesau casglu** i adlewyrchu newidiadau mewn amodau amgylcheddol
3. pam y mae'n bwysig paratoi cyfarpar yn gywir cyn casglu pysgod/cregynbysgod byw
4. pryd a sut i gasglu pysgod/cregynbysgod i leihau lefelau straen yn ystod y broses gasglu, a pham y mae hyn yn bwysig
5. pwysigrwydd monitro iechyd a lles pysgod/cregynbysgod wrth gasglu
6. arwyddion sydd yn dangos straen neu anhwylder mewn pysgod/cregynbysgod
7. pam a sut mae pysgod/cregynbysgod yn cael eu cyflyru cyn eu symud a'u trafod
8. pam y mae'n bwysig monitro amodau amgylcheddol wrth gasglu
9. effaith bosibl amodau amgylcheddol niweidiol ar gasglu
10. y cyfarpar â'r dulliau a ddefnyddir i gasglu pysgod/cregynbysgod byw ar y safle
11. gweithdrefn y safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch
12. sut i ymdrin â **ffactorau** sydd yn gallu amharu ar y broses gasglu o fewn terfynau eich awdurdod.

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwybod sut i ymdrin â'r **ffactorau** canlynol wrth gasglu:

1. newidiadau mewn amodau amgylcheddol
2. cyfarpar yn camweithio
3. materion iechyd a lles mewn pysgod/cregynbysgod

## Geirfa

**unedau cadw –** cyfleusterau a ddefnyddir i gadw pysgod neu gregynbysgod mewn amgylchedd cynhyrchu wedi ei reoli e.e. cewyll, llociau, pyllau, tanciau, leiniau hir, rhedfeydd rasio, rhwydi llusern, hosanau/tiwbiau, bagiau, ac ati

**proses gasglu** – e.e. heidio, sgubo

**cyflyru** – e.e. symud bwyd, triniaethau

Paratoi a chasglu pysgod/cregynbysgod byw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; casgl |